


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd yr UE:**
**Buddsoddi yng Nghymru**
**EU Funds:**
**Investing in Wales**

# Y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd Yn Gweithio Dros Gymru 2007-2013

# Y CRONFEYDD STRWYTHUROL EWROPEAIDD YN GWEITHIO DROS GYMRU 2007-2013



**Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol ar raglenni ariannu yr UE 2007-2013 y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mawrth 2017.**

**Dyma grynodeb o'r prif gyflawniadau ar lefel rhaglen a phrosiect.**

## Beth oedd cronfeydd yr UE yn ei wneud?

Mae pob rhan o Gymru wedi elwa ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2007–2013.

Ar draws Cymru, rydym wedi:

- buddsoddi tua **£1.8 biliwn** o arian yr UE, gan sicrhau cyfanswm buddsoddiad o **£3.4 biliwn**
- creu **36,970** o swyddi newydd
- creu **11,925** o fusnesau
- helpu **72,700** o bobl i gael gwaith
- helpu pobl i ennill **234,300** o gymwysterau newydd
- hwyluso **56,055** o bobl i gamu ymlaen i ddysgu pellach

Mae effeithiau cyllid yr UE hefyd i’w gweld yn y canlynol:

- lleihau’r bylchau hanesyddol o fewn Cymru a chyda’r DU mewn perthynas â chyfraddau cyflogaeth a gweithgarwch economaidd
- gwella lefelau sgiliau yng Nghymru
- cynyddu’n sylweddol lefelau buddsoddi mewn ymchwil ac arloesi


Ar ben hynny, cafodd ein rhaglenni eu gweithredu mewn cyfnod hynod heriol, pan gafodd Cymru ei tharo gan argyfwng economaidd ac ariannol byd-eang 2008 / 2009. Roedd hynny’n gwneud cyllid yr UE hyd yn oed yn fwy hanfodol, yn enwedig o ran creu a diogelu swyddi a busnesau.

## Sut cafodd cyllid yr UE ei ddarparu?

Mae cyllid yr UE wedi ei ddefnyddio i helpu addysg gyhoeddus, addysg uwch ac addysg bellach, yn ogystal â sefydliadau busnes a sefydliadau gwirfoddol, i roi ar waith amrywiaeth o weithgareddau i helpu economi Cymru i dyfu ac i greu swyddi.

Dyma grynodeb o sut yr ydym ni, ar y cyd â’n partneriaid, wedi sicrhau llwyddiant y rhaglenni.


# Sut cafodd yr arian ei wario?





## Oedd yn cyrraedd ein targedau?

Rydym wedi cyflawni, o gryn dipyn, y rhan fwyaf o'n targedau allbwn uchelgeisiol. Mae llwyddiannau pob un o'r 290 o brosiectau a gafodd eu hariannu gennym ar gael yn (dolen)

## Busnesau a swyddi




## Pobl



# Beth mae cyllid yr UE wedi ei wneud dros Gymru?



## Dyma gip arnynt:

- Cefnogi estyniadau a chyfleusterau ymchwil pwysig mewn prifysgolion, megis Campws Arloesi Prifysgol Abertawe, gan ddod â gwyddonwyr rhyngwladol sy’n arwain yn eu maes i Gymru
- Ariannu dros **79,600** o brentisiaethau a thros **12,400** o hyfforddeiaethau, gan gynnwys yn Airbus, Admiral a GE Aviation
- Gwella ein safleoedd twristiaeth a threftadaeth, megis Lido Ponty a Chastell Aberteifi, a chanol ein trefi, gan gynnwys Pontypridd a Merthyr Tudful, er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr a rhoi hwb i fusnesau
- Creu safleoedd busnes o safon ryngwladol, megis Canolfan Arloesi Glynebwy, er mwyn hybu twf ac arloesedd.
- Buddsoddi mewn gorsafoedd trenau, megis Aberystwyth, Llandudno, a Chaerfyrddin, a hefyd ffyrdd pwysig, gan gynnwys yr A465 a Ffordd yr Harbwr, er mwyn cysylltu pobl â swyddi a lleihau amseroedd teithio
- Helpu gweithwyr i ennill **117,000** o gymwysterau
- Helpu tua **12,000** o fusnesau i gychwyn a thyfu drwy Fusnes Cymru a chynlluniau menter gymdeithasol
- Darparu cyfleoedd dysgu newydd i dros **134,000** o bobl ifanc, gan gynnwys drwy brosiectau STEM Cymru ac Ymgysylltu, ac adeiladu colegau newydd megis Parth Dysgu Blaenau Gwent a’r Works
- Hyfforddi dros **67,500** o bobl ddi-waith ac economaidd anweithgar er mwyn eu helpu i gael gwaith, gan gynnwys drwy brosiectau Pontydd i Waith, Porth Cyflogaeth, a Gweithffyrdd
- Helpu dros **25,000** o bobl sydd wedi colli’u gwaith yn ystod yr argyfwng economaidd drwy REACT
- Hyrwyddo cyfle cyfartal a chydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle
- Helpu i amddiffyn dros **8,600** o gartrefi a busnesau rhag llifogydd
- Cefnogi partneriaethau rhwng addysg uwch a busnesau er mwyn manteisio ar gyfleoedd arloesi a gwella llwyddiant busnesau, gan gynnwys ym meysydd iechyd a thechnolegau newydd.
- Cefnogi cynlluniau carbon isel megis SEACAMS er mwyn diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.